OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 9

# Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021

## RHAN 9

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (GRADDAU MEISTR ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2019

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

**58.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 59 i 63.

**59.** Yn rheoliad 16—

(a) yn lle paragraff (1)(b)(i) rhodder—

"(i) bod y myfyriwr neu ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur, yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n dod yn berson y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo;";

(b) ym mharagraff (2), yn y lle priodol mewnosoder ""rheolau mewnfudo" ("*immigration rules*");".

**60.** Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 2 (Categori 2 - ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd) mewnosoder—

**"Categori 2A - Personau a ddiogelir ac aelodau o'u teuluoedd**

**2A.**—(1) Person—

(a) y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,

(**1**) O.S. 2019/895 (Cy. 161), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1094; O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/142 (Cy. 25); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/918 (Cy. 206); ac O.S. 2020/1302 (Cy. 287) (o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, fel y diffinnir "IP completion day" gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1), adran 39(1) i (5)).

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) (i) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir, neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir, a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,

(b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth person gais am ganiatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig sy'n arwain at berson yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;

(b) ystyr "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir" yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo."

**61.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 3 (Categori 3 - personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd)—

(a) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

"(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (2)(a)(ii) mewnosoder "a";

(c) ar ddiwedd is-baragraff (2)(b) yn lle ", ac" rhodder atalnod llawn;

(d) hepgorer is-baragraff (2)(c);

(e) ar ddiwedd is-baragraff (3)(b) mewnosoder "ac";

(f) ar ddiwedd is-baragraff (3)(c) yn lle ", a" rhodder atalnod llawn;

(g) hepgorer is-baragraff (3)(d).

**62.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 4 (Categori 4 - personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd), yn is-baragraff (4)(a)(i), yn lle "diogelwch dyngarol neu ganiatâd" rhodder "caniatâd".

**63.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 5 (Categori 5 - personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (1)(a) mewnosoder "a";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (1)(b) yn lle ", ac" rhodder atalnod llawn;

(c) hepgorer is-baragraff (1)(c);

(d) ar ddiwedd is-baragraff (2)(b) mewnosoder "ac";
(e) ar ddiwedd is-baragraff (2)(c) yn lle ", a" rhodder atalnod llawn;
(f) hepgorer is-baragraff (2)(d).